

# Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid ar  
**ddydd Mercher, 10 Mai 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Siân Maehrlein, Chris James, Mark Strong a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol:** Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Gogledd, Mr Sam Pugh - Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, De, Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro, Mr Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth, Datblygu Priffyrdd, Mr Shaun Greatrix, Peiriannydd Uwch a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am-12:40pm)

- 1 Materion Personol**  
Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.
- 2 Ymddiheuriadau**  
Dim.
- 3 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**  
Datgelodd Y Cynghorydd Rhodri Evans fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A201012, A220815 ac A230102.  
Datgelodd Y Cynghorydd Marc Davies fudd personol yng Nghais A230102.  
Datgelodd Mr Russell Hughes-Pickering fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A230162.
- 4 Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor**  
Dim.
- 5 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu**  
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-  
  
A201012 Newid Defnydd Tir Amaethyddol i fod yn safle Podiau Glampio, Caeau i'r De-ddwyrain o Bantfod, Llanddewi Brefi, Tregaron

Nodi bod y cais wedi cael ei DYNNU'N ÔL o'r agenda, oherwydd y cafwyd gwybodaeth bellach gan yr asiant ar ôl cyhoeddi'r agenda i'w hystyried gan y swyddogion.

---

Anerchodd Mr Paul Nicholls (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A220398 Annedd mewnlenni arfaethedig, Tir Gerllaw Uwch-y-nant Borth

GOHIRIO'R cais er mwyn caniatáu amser pellach neu gyfnod 'callio' er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, er mwyn ystyried a oes unrhyw ystyriaethau perthnasol y dangosir tystiolaeth ddigonol ohonynt i wrthbwysu'r polisiau, ystyried arwyddocâd y gwyrho ac ystyried y risgiau sydd ynghlwm â chymeradwyo'r penderfyniad, cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

---

A220815 Codi sied amaethyddol i gadw tail buarth, Llanio Fawr, Tregaron

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

---

Anerchodd Mr Tim Rainbird (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A230028 Codi 1 uned fanwerthu (Dosbarth A1) a chreu ardal arddangos allanol, mynediad a threfniadau gwasanaethu, lle parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig, Tir yn Ffordd y Baddondy, Aberteifi

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau .

---

Anerchodd Ms Samantha Davies (gwrthwynebydd) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230102 Ysgol Gynradd un llawr newydd gydag Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Canolfan Iaith, Meithrin, ffordd fynediad newydd a lle parcio, MUGA a Chae 3G llifoleuedig gydag adeilad Storio/Toiled, cyfleusterau chwistrellu, is-orsaf, lle gwasanaeth a lle storio sbwriel, gwaith tirlunio gan gynnwys ffens, triniaethau ffin a llwybrau, a gwelliannau i'r palmant wrth ymyl y briffordd, Ysgol Gynradd Dyffryn Aeron, Ffordd Llanbedr Pont Steffan, Felin-fach, Llanbedr Pont Steffan

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

---

Anerchodd Mr Keith Davies y Pwyllgor ar ran Grŵp Preswylwyr Llangawsai (gwrthwynebydd) yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230162 Dymchwel 2 uned ystafell ddosbarth Dros dro ac 1 garej a'u disodli gyda bloc deulawr newydd o 10 ystafell ddosbarth, tanc chwistrellu cysylltiedig, gwaith allanol a gwaith tirlunio, Ysgol Gymraeg, Plascrug, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth

GOHIRIO'R penderfyniad er mwyn cael ymateb boddhaol gan ymgynghorai, sef NRW, ynghylch llifogydd, halogi tir ac arolwg ystlumod, a hefyd, ceisio eglurhad gan gynrychiolaeth o swyddogion i gymeradwyo/gwrthod y cais gan bod y Swyddog Corfforaethol Arweiniol dros yr Economi ac Adfywio wedi datgan budd yn y cais. Cyflwynir y cais gerbron y Pwyllgor eto ar ôl cael y wybodaeth gan yr ymgynghoreion.

**6 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig**  
PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

**7 Apeliadau**  
CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

**8 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_